**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD  PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol  1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

**Tachwedd 7fed 2022**

**Cyfarfod Rhithiol**

**Yn bresennol:**

**Y Cynghorwyr:** Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Elin Hywel, Elwyn Jones, Gareth T Jones, Huw Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Cai Larsen, Edgar Owen, Gareth A Roberts, John Pughe Roberts, Huw Rowlands, Gareth Coj Parry a Gruffydd Williams

**Swyddogion:** Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Cynllunio ac Amgylchedd), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol), Keira Sweenie (Rheolwr Cynllunio), Aneurin Rhys (Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu), Rhys Cadwaladr (Uwch Swyddog Cynllunio Mwynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Ymddiheuriadau:**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Louise Hughes a'r Cynghorydd Beca Roberts (Aelod Lleol)

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD  PWYLLGOR CYNLLUNIO**

**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio** | 7 Tachwedd 2022 |

**PWNC: Eitem 5.1 CAIS RHIF C22/0667/38/AM**

**Tir Ger Dolwar, Ffordd Pedrog, Llanbedrog, Pwllheli, LL53 7PA**

**Cais amlinellol ar gyfer codi 5 ty sy'n cynnwys dau dy delawr pedair lloft, un ty deulawr tair lloft, a dau dy unllawr**

**PENDERFYNIAD: Gwrthod – rhesymau**

1. **Ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth ynglŷn ac effaith y datblygiad ar yr Iaith, ac felly ni ellir sicrhau nad yw'r bwriad yn groes i ofynion polisi PS1 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2017 a Chanllaw Cynllunio Atodol Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy.**

2. **Mae'r bwriad yn annerbyniol ac y byddai yn debygol o gael effaith sylweddol ar fwynderau trigolion cyfagos a'r ardal o ran aflonyddwch a sŵn, ynghyd ac effaith sylweddol ar ddiogelwch ffyrdd o ran darparu mynediad i gerbydau, diffyg darpariaeth i gerddwyr a defnyddwyr beics a'r ddarpariaeth parcio. Mae'r bwriad felly yn groes i ofynion maen prawf 7 o bolisi PCYFF 2 a polisïau TRA 2 a 4 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2017.**

3. **Nid yw'r cais yn cyfeirio at ddarparu tai marchnad lleol na tai fforddiadwy o gwbl ac nid oes gwybodaeth wedi ei ddarparu o ran cyfiawnhau'r tai eu pris fforddiadwy a sut fydd y bwriad arfaethedig yn cyfarch anghenion y gymuned leol, felly i'r perwyl hynny nid yw'n cydymffurfio a gofynion polisïau TAI 5, PS17, TAI 15 na PS1 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2017.**

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 13 |
| Yn erbyn | 0 |
| Atal | 0 |

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CYNLLUNIO**

**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio** | 7 Tachwedd 2022 |

**PWNC: Eitem 5.2 CAIS RHIF C21/1030/42/LL**

**Cyn Eglwys Santes Mair Lôn Yr Eglwys, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6AR Codi 7 tŷ annedd ynghyd a gwaith cysylltiol.**

**PENDERFYNIAD: Gwrthod – Rhesymau**

1. **Mae'r ddarpariaeth dai ym Morfa Nefyn eisoes yn sylweddol uwch na'r ddarpariaeth a glustnodwyd gan y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ac felly ni chredir bod y cynnig yn cwrdd gyda'r anghenion lleol cydnabyddedig am dai. O ganlyniad fe fuasai'r datblygiad yn arwain at orddarpariaeth tai marchnad agored yn y gymuned yn groes i ofynion polisi TAI 4 y CDLl a'r strategaeth aneddleoedd a'i cynhwysir ym Mholisi PS 17.**

2. **Oherwydd gwerth marchnad debygol yr unedau a fwriedir ar gyfer tai fforddiadwy, nid yw'n bosibl sicrhau bydd yr unedau hyn yn aros yn fforddiadwy er mwyn cwrdd ag anghenion y gymuned leol yn yr hirdymor ac felly mae'r cais yn groes i ofynion Polisi TAI 15 y CDLl.**

3. **Ar sail y wybodaeth sydd wedi ei chyflwyno yn y Datganiad Ieithyddol nid yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi ei argyhoeddi na fyddai'r datblygiad yn achosi niwed o sylwedd i gymeriad a chydbwysedd yr iaith Gymraeg yn y gymuned ac felly mae'r cais yn groes i ofynion polisi PS1 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn.**

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 13 |
| Yn erbyn | 0 |
| Atal | 0 |

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.
Cyng Gareth Morris Jones (Aelod Lleol)

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio** | 7 Tachwedd 2022 |

**PWNC: Eitem 5.3 CAIS RHIF C22/0336/16/MW**

**Chwarel Penrhyn, Bethesda, LL57 4YG**
**Cais ar gyfer estyniad i weithfeydd cloddio llechi**

**PENDERFYNIAD: Dirprwyo'r hawl i Bennaeth yr Adran Amgylchedd gymeradwyo'r cais, gydag amodau'n ymwneud â'r hyn a ganlyn:**

1. **Hyd y cyfnod gweithio 31/12/2035 a'r cyfnod adfer hyd at 31/12/2037 i gyd-fynd â thelerau'r prif ganiatâd cynllunio.**
2. **Gweithgareddau a ganiateir a chydymffurfiaeth â'r manylion/cynlluniau a gyflwynwyd.**
3. **Marcio ffin y safle ac ardaloedd cloddio am fwynau.**
4. **Tynnu yn ôl hawliau Rhannau 19 a 21 y Gorchymyn Hawliau a Ganiateir ar gyfer offer neu beiriannau sefydlog, adeiladau a strwythurau a gwastraff mwynau.**
5. **Oriau Gweithio.**
6. **Dull gweithio a chyfyngiadau ffrwydro;**
7. **Cynllun Adfer Manwl**
8. **Rheoli goleuo allanol.**
9. **Rheoli cyfyngiadau sŵn ar gyfer y dydd a'r nos.**
10. **Rheoli llwch a ryddheir.**
11. **Adolygiad bob pum mlynedd o'r gweithrediadau.**
12. **Rheoli priddoedd a storio cyfryngau adfer.**
13. **Rheoli stripio pridd a chlirio llystyfiant.**
14. **Diweddaru cynllun tipio a gwastraff (llechi, priddoedd ac ati).**
15. **Cynllun monitro hirdymor ar gyfer y ffrwd.**
16. **Gwarchod adar sy'n nythu.**
17. **Cynllun rheoli cen.**
18. **Mesurau diogelu ymlusgiaid.**
19. **Atal da byw rhag cael mynediad i ardaloedd sydd wedi'u hadfer.**
20. **Monitro rhywogaethau ymledol.**
21. **Cynllun adfer manwl o leiaf 12 mis cyn i'r gweithrediadau ddirwyn i ben.**
22. **Cofnodi a lliniaru archeolegol**

## CANLYNIAD Y BLEIDLAIS

| | |
|---|---|
| O blaid | 14 |
| Yn erbyn | 0 |
| Atal | 0 |

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio** | 7 Tachwedd 2022 |

**PWNC: Eitem 5.4 CAIS RHIF C22/0327/16/AC**
**Breedon, Chwarel Penrhyn, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 4YG**

**Cais o dan Adran 73 i amrywio amod 1 a 3 ar ganiatâd cynllunio C16/1164/16/MW (Cais o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i benderfynu ar amodau dan adolygiad cyfnodol) er mwyn ymestyn yr amser ar gyfer cloddio a gweithio deunydd hyd at 2035, ymestyn amser ar gyfer adfer y safle hyd at 2037 a diwygio cynlluniau er mwyn cynnwys estyniad i'r ardal cloddio**

**PENDERFYNIAD: Dirprwyo'r hawl i Bennaeth yr Adran Amgylchedd gymeradwyo'r cais, gydag amodau'n ymwneud â'r hyn a ganlyn:**

1. **Hyd y cyfnod gweithio 31/12/2035 a'r cyfnod adfer hyd at 31/12/2037.**
2. **Gweithgareddau a ganiateir a chydymffurfiaeth â'r manylion/cynlluniau a gyflwynwyd (yn cynnwys ardal yr estyniad).**
3. **Marcio ffin y safle ac ardaloedd cloddio am fwynau.**
4. **Oriau Gweithio.**
5. **Cyflwyno cais i ymestyn cyfnod cau a gwyro Hawliau Tramwy Cyhoeddus rhifau 46 a 50.**
6. **Oriau Gweithio ar wyneb y gwaith**
7. **Dull gweithio a chyfyngiadau ffrwydro**
8. **Adferiad a chynllun creu ac adfer cynefinoedd manwl yn unol â manylion y cais**
9. **Cynllun adfer ar gyfer safle'r peiriannau erbyn 31 Rhagfyr 2035.**
10. **Adolygiad bob pum mlynedd o'r gweithrediadau**
11. **Rheoli goleuo allanol**
12. **Rheoli cyfyngiadau sŵn ar gyfer y dydd a'r nos**
13. **Rheoli llwch a ryddheir a darparu/cynnal a chadw gorsaf dywydd**
14. **Priddoedd a storio cyfryngau adfer**
15. **Cyfyngu ar yr hawliau datblygu a ganiateir**
16. **Cyfyngu ar glirio llystyfiant ar adegau penodol o'r flwyddyn oni bai y gellir profi yn ysgrifenedig na fydd y gwaith yn amharu ar adar ac ymlusgiaid;**
17. **Gwaith monitro cen wedi'i ddiweddaru**
18. **Cynllun rheoli cynefin gweundir ar gyfer yr ardal ddigolledu amgylcheddol yn unol â'r manylion a ddarparwyd**
19. **Cynllun monitro hirdymor ar gyfer y ffrwd.**
20. **Monitro cynefinoedd Gwaen Gynfi**
21. **Cofnodi a lliniaru archeolegol**
22. **Gwarchod adar sy'n nythu.**
23. **Cynllun rheoli cen.**

24. **Mesurau diogelu ymlusgiaid.**

**25. Atal da byw rhag cael mynediad i ardaloedd sydd wedi'u hadfer.**
**26. Monitro rhywogaethau ymledol.**

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 14 |
| Yn erbyn | 0 |
| Atal | 0 |

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio** | 7 Tachwedd 2022 |

**PWNC: Eitem 5.5 CAIS RHIF C22/0662/11/LL**
**Ysgol Hillgrove, Ffordd Ffriddoedd, Bangor Gwynedd, LL57 2TW**

**Newid defnydd o cyn-ysgol (Defnydd Dosbarth D1) i hostel (Defnydd Dosbarth C2) sy'n cynnig cefnogaeth byw i breswylwyr gan gynnwys estyniad a gwaith adeiladu cysylltiedig.**

**PENDERFYNIAD:**

**Caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:**

1. **Cychwyn o fewn 5 mlynedd.**
2. **Unol â'r cynlluniau a gyflwynwyd.**
3. **Yr holl arwyddion mewnol ac allanol i fod yn Gymraeg yn unig neu yn ddwyieithog gyda'r flaenoriaeth i'r iaith Gymraeg.**
4. **Rhaid dilyn argymhellion yr Asesiad Ecolegol Cychwynnol**
5. **Amod Dŵr Cymru**
6. **Arolwg ffotograffig er cofnodi nodweddion archeolegol**

**Nodyn - Dŵr Cymru**

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 12 |
| Yn erbyn | 1 |
| Atal | 0 |

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.
Cyng Huw Wyn Jones (Aelod Lleol)